# STRATEGAETH 2025-2028

Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru
Wales Accord on the Sharing of Personal Information



GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Digital Health and Care Wales

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Cefndir | 3 |
| Gweledigaeth, Cenhadaeth a Nodau | 4 |
| Amcanion Strategol | 5 |
| Cyd-destun | 6 |
| Yr angen am strategaeth | 7 |
| Mesuriadau, adnoddau a chyllid | 8 |
| Ein Blaenoriaethau 2025-2028 | 10 |
| Atodiad A – Llywodraethu WASPI | 11 |


20fed Pen-blwydd
WASPI
20th Anniversary

## CEFNDIR

Yng Nghymru mae gennym gefnogaeth eang i fframwaith rhannu gwybodaeth, sef Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). Mae Llywodraeth Cymru yn ei gefnogi, darparwyr gwasanaethau sy'n berchen arno, ac mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ei gydnabod fel arfer da.

Ers ei sefydlu, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran ymgorffori WASPI ar draws darparwyr gwasanaethau yng Nghymru. Mae'r strategaeth hon yn dathlu 20fed pen-blwydd sefydlu fframwaith WASPI ac mae'n canolbwyntio ar yr uchelgeisiau i wella a gyrru WASPI ymlaen yn ystod y blynyddoedd nesaf. Yn rhy aml, ystyrir (o hyd) bod y gallu i rannu gwybodaeth bersonol yn rhwystr i ddarparu gwasanaethau cydweithredol ac arloesol. Nodau ac amcanion WASPI yw cefnogi gwasanaethau gyda'r sylfeini ar gyfer gweithgareddau rhannu data personol effeithiol.

Mae gan WASPI rôl bwysig i'w chwarae o ran gwella diwylliant ac ymarfer. Y fframwaith oedd sylfaen mentrau rhannu data wedi'u dogfennu ar draws sefydliadau partner arwyddocaol yn ystod pandemig COVID-19, oedd yn galluogi sefydliadau i rannu data yn hyderus, ac fe'i cydnabyddir drwy adolygiadau ledled y DU o arferion rhannu data.

Mae'r ddogfen strategaeth hon yn amlinellu sut mae WASPI yn bwriadu parhau i wneud gwahaniaeth ac adeiladu ar sail y strategaethau blaenorol. Mae pwysigrwydd rhannu gwybodaeth i gyflenwi gwasanaethau iechyd, gofal a gwasanaethau cyhoeddus ehangach wedi'i hen sefydlu. Heb fframwaith WASPI sy'n datblygu'n barhaus, bydd sefydliadau'n ei chael yn fwy anodd dangos cydymffurfedd â'r gyfraith ac arferion da wrth rannu data.

# Gweledigaeth, Cenhadaeth a Nodau

| | |
|---|---|
| **Gweledigaeth** | Bydd sefydliadau'n rhannu data personol yn hyderus, yn effeithiol ac yn gyfreithlon, yn ôl yr angen, er budd pobl yng Nghymru. |
| **Cenhadaeth** | Helpu darparwyr gwasanaethau i ddarparu gwasanaethau gwell drwy hyrwyddo dull safonol, cyson a chyfreithlon o rannu data personol a sicrhau bod arferion rhannu data yn cefnogi darpariaeth effeithiol o wasanaethau a ddarperir i ddinasyddion. |
| **Nodau** | Bydd WASPI yn gyrru diwylliant sy'n cefnogi rhannu data personol yn briodol ac yn gyfreithlon er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol i bobl yng Nghymru, gan ddarparu dull cyson i bartneriaid a sefydliadau ategol gydymffurfio ag egwyddorion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) y DU. |
| **Amcanion Strategol** | 1. Bydd llunwyr polisi a phenderfynyddion, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, cynrychiolwyr etholedig, Prif Swyddogion a Swyddogion Diogelu Data yn deall sut mae WASPI yn eu helpu i ddangos yr egwyddor o atebolrwydd sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth diogelu data.<br>2. Bydd gan staff a rheolwyr rheng flaen yr hyder i allu rhannu gwybodaeth yn briodol, o ganlyniad i fframwaith WASPI a'i neges i gefnogi darparu gwasanaethau cydweithredol.<br>3. Bydd technoleg a datrysiadau digidol yn cael eu cyflwyno i hwyluso datblygu a sicrhau ansawdd cytundebau, rheoli adolygiadau o gytundebau a chreu "un golwg" genedlaethol o'r holl drefniadau rhannu data personol yng Nghymru.<br>4. Sefydlu a chynnal cofrestr genedlaethol ddigidol o weithgareddau rhannu gwybodaeth sy'n galluogi llunwyr polisi ganolbwyntio ar feysydd i'w gwella a lleihau cyfleoedd a gollwyd ac sy'n galluogi sefydliadau i weld yr holl drefniadau rhannu data y maent yn rhan ohonynt.<br>5. Bydd tîm WASPI yn cefnogi Swyddogion Diogelu Data ac arweinwyr Llywodraethu Gwybodaeth i weithredu a hyrwyddo WASPI yn hyderus fel fframwaith i helpu i ddarparu gwasanaethau'n effeithiol a chydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.<br>6. Parhau i wella a thyfu fframwaith WASPI, wrth iddo ymdrechu i ddod yn God Ymddygiad Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a gymeradwyir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth y DU gyda strwythurau llywodraethu priodol |

# GWERTHOEDD

## Cydweithio


O ddatblygu cytundebau, i nodi cyfleoedd i hyrwyddo WASPI, mae cydweithredu yn allweddol i fframwaith rhannu gwybodaeth gynaliadwy, gyfreithlon ac effeithiol.

## Rhoi dinasyddion yn gyntaf

Mae fframwaith WASPI er budd pobl yng Nghymru, gan eu helpu i gael gwell gwasanaethau a - thrwy godi safonau mewn rhannu gwybodaeth - cynyddu eu lefelau ymddiriedaeth mewn darparwyr gwasanaethau.

## Uniondeb a phroffesiynoldeb

Mae rhanddeiliaid yn gweithredu gydag uniondeb i feithrin ymddiriedaeth gyda chydweithwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Maent yn cydnabod ac yn parchu safbwyntiau a dehongliadau amgen fel elfen allweddol o adeiladu fframwaith cadarn.



# CYD-DESTUN

Mae WASPI yn fframwaith rhannu gwybodaeth traws-sector sydd wedi'i hen sefydlu. Ei nod yw gwella'r gwasanaethau a ddarperir i bobl yng Nghymru drwy helpu darparwyr gwasanaethau i rannu gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon ac yn briodol. Mae dros 800 o sefydliadau wedi llofnodi'r Cytundeb ac mae dros 300 o Brotocolau Rhannu Gwybodaeth wedi cael eu sicrhau o ran ansawdd a'u cyhoeddi ar wefan WASPI , fel enghreifftiau o arferion da.

Mae'r strwythur llywodraethu (Grŵp Ymgynghorol Rheoli WASPI, Grwpiau Sicrhau Ansawdd, tîm cymorth WASPI) yn hyrwyddo ac yn gweithredu WASPI ac yn sicrhau bod y fframwaith yn parhau i fod yn berthnasol. Mae rhagor o wybodaeth am y strwythur llywodraethu ar gael yn Atodiad A.

Mae sawl adnewyddiad o'r Cytundeb, y templedi a'r canllawiau wedi'u cynnal dros y blynyddoedd sydd wedi sicrhau bod WASPI yn parhau i adlewyrchu'r newidiadau a ddaeth yn sgil y ddeddfwriaeth diogelu data wedi'i diweddaru, Cod Ymarfer Rhannu Data'r Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) wedi'i ddiweddaru, a'r adborth a dderbyniwyd gan randdeiliaid. Mae WASPI yn parhau i dderbyn cymorth gan Lywodraeth Cymru a'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n ei gydnabod fel arfer da ac yn ffordd y gall darparwyr gwasanaethau gydymffurfio â Chod Ymarfer Rhannu Data'r Comisiynydd.

Yn ogystal â chefnogi safonau rhannu gwybodaeth, mae WASPI hefyd yn hyrwyddo cydymffurfiaeth â diogelu data, gan alluogi sefydliadau i gydymffurfio â threfniadau prosesu data a rheolwyr data ar y cyd. Cyflawnir hyn drwy gytundebau templed sydd ar gael i sefydliadau ar draws pob sector eu defnyddio.

1. www.waspi.llyw.cymru

**John Edwards, Comisiynydd Gwybodaeth, July 2025**

'Wrth i ni archwilio ymhellach i'r manteision y gall digideiddio, deallusrwydd artiffisial a dadansoddeg data eu cynnig i ddefnyddwyr a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, mae'n werth ystyried bod diogelu data yn parhau i fod yr un mor ganolog i lwyddiant mentrau sy'n defnyddio gwybodaeth bersonol ag yr oedd 20 mlynedd yn ôl pan ddechreuodd WASPI. Fel y dywedodd fy rhagflaenwyr, mae WASPI yn helpu sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru drwy ddarparu proses glir a rennir, sy'n eu tywys drwy'r camau allweddol i gydymffurfio â deddfwriaeth, yn ogystal â chefnogi'r tryloywder a'r atebolrwydd sy'n hanfodol i feithrin a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn nefnydd data'r sector cyhoeddus. Diolch yn fawr WASPI

'Mae WASPI wedi bod yn rhan amhrisiadwy o'n hymateb i bandemig Covid-19 a'n hymateb Cenedl Noddfa i'r rhyfel yn Wcráin, gan ddarparu arferion da cydnabyddedig a hyblygrwydd a'n galluogodd ni a'n partneriaid i ymateb yn gyflym a chyda hyder bod data'n cael ei rannu'n briodol ac yn ddiogel. Bydd WASPI yn parhau i'n cynorthwyo i gyflawni ein hymrwymiadau o dan y Strategaeth Ddigidol i Gymru er mwyn sicrhau bod rhwystrau i rannu data yn cael eu dileu, er budd dinasyddion."

**Llywodraeth Cymru, July 2025**

# YR ANGEN AM STRATEGAETH

Mae rhannu gwybodaeth yn ffactor allweddol wrth ddarparu gwasanaethau effeithiol ond mae mwy i'w wneud i addysgu a grymuso'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Er enghraifft, asesodd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn 2018, 'Aeddfedrwydd llywodraeth leol o ran y defnydd o ddata', a oes gan lywodraeth leol y 'blociau adeiladu a'r diwylliant cywir ar waith i fanteisio ar y data sydd ganddo.' Roedd rhan dau o'r adroddiad yn ystyried 'gwaith diogelu data' a rhannu gwybodaeth awdurdodau lleol. Canfu, er bod 'rhywfaint o gynnydd wedi bod o ran trafod yr angen i rannu data', roedd darpar bartneriaid yn aml yn amharod i gymryd rhan oherwydd pryderon ynghylch cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Canfu'r adroddiad fod rheolwyr / swyddogion gweithredol hefyd yn defnyddio WASPI fel rhwystr i rannu gwybodaeth, yn hytrach na galluogwr.

Canfu Asesiad Aeddfedrwydd Data Gofal Cymdeithasol 2024, Adroddiad Cenedlaethol ar gyfer Cymru mai'r rhwystrau a welwyd gan awdurdodau lleol fel y rhai mwyaf arwyddocaol i rannu data'n effeithiol oedd systemau data anghydnaws, diffyg adnoddau, y gallu i sicrhau ansawdd y data a oedd yn cael ei rannu, a chymhlethdodau llywio fframweithiau cyfreithiol.

Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn cefnogi'r angen am waith pellach i barhau i ymgorffori diwylliant lle mae'r unigolion hynny sy'n darparu gwasanaethau yn cael eu cefnogi i rannu gwybodaeth. Mae WASPI yn un offeryn galluogi a all gael effaith gadarnhaol ar draws sectorau a darparwyr gwasanaethau – bydd strategaeth yn helpu i ganolbwyntio egni ac adnoddau yn y mannau cywir.

Cydnabu Adroddiad Sefydliad y Llywodraeth 2023 ar Rannu Data yn ystod y coronafeirws: gwersi i'r llywodraeth' WASPI gan ei fod yn "darparu set gyffredin o egwyddorion ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol, a hwylusodd ymateb llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig yn fawr. Mae'r fframwaith yn lleihau rhywfaint o'r anghydbwysedd o ran canfod risg sy'n aml yn gysylltiedig â sefydlu cytundebau rhannu data newydd, gan leihau unrhyw rwystrau deddfwriaethol sy'n atal rhannu data".

Pwysleisir ymhellach bwysigrwydd rhannu gwybodaeth yn effeithiol mewn deddfwriaeth, strategaeth a pholisi, gan gynnwys datganiad o fwriad Llywodraeth Cymru, 'Defnyddio data iechyd a gofal yn well er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol a gwasanaethau effeithlon' , 'Iechyd a Gofal Gwybodus

Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ddigidol ar gyfer Cymru' , Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac adran 115 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Cydnabyddir hyn ymhellach yn ymgynghoriad y Llywodraeth Ganolog ar "Data: a new direction" a'r Bil Data (Defnydd a Mynediad) arfaethedig. Bydd Strategaeth WASPI hefyd yn anelu at gyd-fynd ag unrhyw ddiweddariadau i'r ddeddfwriaeth, y canllawiau a'r mentrau hyn.

2. https://www.audit.wales/cy/publication/aeddfedrwydd-llywodraeth-leol-o-ran-y-defnydd-o-ddata

# MESURIADAU, ADNODDAU A CHYLLID

Caiff llwyddiant y strategaeth hon ei fesur drwy gyfeirio at ganlyniadau (i'r graddau y maent ar gael) a adroddir yn:

- Adroddiadau yn dilyn archwiliadau rheolaidd o randdeiliaid gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, lle mae'r cwmpas yn cynnwys rhannu gwybodaeth / WASPI.
- Cyflawniadau gyda Chynllun Tymor Canolig Integredig Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Canlyniadau archwilio mewnol.
- Adroddiadau perthnasol eraill a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth, Archwilio Cymru, rheoleiddwyr, cyrff arolygu neu eraill.
- Adroddiad asesu blynyddol sy'n mesur cyflawniadau a chanlyniadau

Er y rhagwelir y bydd lefelau staffio tîm cymorth craidd WASPI yn parhau ar y lefelau presennol, gall y gallu i gyflawni amcanion strategol fod yn amodol ar nodi cyllid ychwanegol a'i gyrchu. Bydd cynlluniau cyflawni penodol yn ystyried unrhyw achosion busnes sydd eu hangen i archwilio opsiynau ariannu.

Mae strwythur Llywodraethu WASPI, sy'n cael ei ategu gan y pum grŵp sicrhau ansawdd rhanbarthol, yn parhau i fod yn ganolog i gyflawni'r strategaeth. Mae parhau i ymgysylltu â'r aelodaeth bresennol yn hanfodol i gyflawni'r nodau y cytunwyd arnynt. Bydd rheolaethau llywodraethu safonol yn parhau i gefnogi'r grwpiau i sicrhau eu bod yn parhau i weithredu'n effeithiol ac yn unol â phrosesau cyson a fydd yn caniatáu rhwyddineb trosglwyddo os bydd WASPI yn dod yn God Ymddygiad ICO cymeradwy.

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) yn Awdurdod Iechyd Arbennig ac yn gorff statudol a sefydlwyd o dan offeryn statudol 2020 Rhif 1451 (Cy.313), 'Gorchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Sefydlu ac Aelodaeth) 2020'. Bydd IGDC yn parhau i gefnogi'r swyddogaeth ar gyfer WASPI trwy ei dîm Llywodraethu Gwybodaeth gydag ymrwymiadau wedi'u hadlewyrchu yng Nghynlluniau Tymor Canolig Integredig IGDC.


Bydd y strategaeth hon yn cael ei hadolygu'n flynyddol gan Dîm WASPI gyda'r adolygiad nesaf wedi'i drefnu ar gyfer Ionawr 2026.


3. https://insightcollective.socialcare.wales/assets/documents/Social-Care-Data-Maturity-Assessment_comp.pdf
4. Data sharing during coronavirus lessons for government_2.pdf (instituteforgovernment.org.uk)
5. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/datganiad-o-fwriad.pdf
6. https://www.llyw.cymru/strategaeth-ar-gyfer-iechyd-gofal-cymdeithasol-digidol
7. https://www.gov.uk/government/consultations/data-a-new-direction

# OUR PRIORITIES 2025-2028

| Amserlen | Gweithgaredd | Y perchennog |
|---|---|---|
| Ionawr a Chwefror 2025 | Ymgynghoriad | Bwrdd Rheoli WASPI |
| Mawrth ac Ebrill 2025 | Cyhoeddi'r Strategaeth a chyfathrebu â rhanddeiliaid | Tîm WASPI |
| Ebrill 2025 ymlaen | Datblygu a gweithredu cynlluniau i gyflawni amcanion strategol y cytunwyd arnynt<br><br>Ailgyfansoddi Bwrdd Rheoli presennol WASPI yn Grŵp Cynghori Rheoli WASPI<br><br>Adolygiad pellach o’n hamcanion strategol yn dilyn cyflwyno ein Cod Ymddygiad ICO WASPI arfaethedig<br><br>Datblygu platfform digidol i alluogi un olwg ar holl Brotocolau Rhannu Gwybodaeth WASPI ledled Cymru, gyda’r gallu i ddatblygu Protocolau’n ddigidol rhwng partneriaid. | Tîm WASPI<br><br>Bwrdd Rheoli WASPI<br><br>Cymuned rhanddeiliaid ehangach |
| Yn flynyddol | Strategaeth Adolygu | Tîm Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru |

# ATODIAD A – LLYWODRAETHU WASPI




- Bwrdd Rheolaeth
- Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Cymru
- Llwodraeth Cymru

- 800+ sefydliadau'n cymrud rhan
- Arweinwyr Llywodraeth Gwybodaeth Lleol
- Datblygu ISP (400+)

Cytundeb Rhannu Gwybodaeth
Bersonol Cymru
Wales Accord on the
Sharing of Personal Information

## CONTACT US

For further information and advice view our website or contact us via email.

Gwefan: www.waspi.org

E-bost: waspiservice@wales.nhs.uk